

2018 Rhif (Cy.)

2018 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

**Gorchymyn Cefnffordd yr A470
(Llanrwst, Conwy) (Gwahardd
Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr
Dros Dro) 2018**

**The A470 Trunk Road (Llanrwst,
Conwy) (Temporary Prohibition of
Vehicles, Cyclists and Pedestrians)
Order 2018**

Gwnaed 21 Medi 2018

Made 21 September 2018

Yn dod i rym 1 Hydref 2018

Coming into force 1 October 2018

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd yr A470, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi a'r tebygolrwydd o berygl i'r cyhoedd os bydd llifogydd.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the A470 Trunk Road, are satisfied that traffic on a specified length of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road and of likelihood of danger to the public during potential flooding incidents.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

Title, Commencement and Interpretation

1. Enw'r Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Llanrwst, Conwy) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2018 a daw i rym ar 1 Hydref 2018.

1. The title of this Order is the A470 Trunk Road (Llanrwst, Conwy) (Temporary Prohibition of Vehicles, Cyclists and Pedestrians) Order 2018 and it comes into force on 1 October 2018.

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006(c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

2. (1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(2) neu mewn cysylltiad â’r gwaith sy’n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw’r cyfnod sy’n dechrau am 00:01 o’r gloch ar 1 Hydref 2018 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw cefnffordd yr A470 Maentwrog i fan i’r dwyrain o Gonwy.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy’n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Gwaharddiadau

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darn o’r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i’r Gorchymyn hwn.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal, na pheri i unrhyw feic pedal gael ei reidio, ar y darn o’r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i’r Gorchymyn hwn.

5. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darn o’r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i’r Gorchymyn hwn.

Cymhwyso

6. Ni fydd y gwaharddiadau yn erthygl 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn

7. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

2. (1) In this Order:

“exempted vehicle” (“*cerbyd esempt*”) means any vehicle being used for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984 Act(2) or in connection with the works giving rise to this Order;

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A470 Maentwrog to East of Conwy trunk road;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means the period commencing at 00:01 on 1 October 2018 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

(2) Any reference in this Order to a numbered article is a reference to the article bearing that number in this Order.

Prohibitions

3. No person may, during the works period, drive or cause or permit any vehicle, other than an exempted vehicle, to proceed on the length of the trunk road specified in the Schedule to this Order.

4. No person may, during the works period, ride or cause to be ridden, any pedal cycle on the length of the trunk road specified in the Schedule to this Order.

5. No pedestrian may, during the works period, proceed on the length of the trunk road specified in the Schedule to this Order.

Application

6. The prohibitions in article 3, 4 and 5 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Duration of this Order

7. The maximum duration of this Order is 18 months.

(2) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a’r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a’r Llysoedd 2013 (p. 22) ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

(2) Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c.21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c. 15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c. 22), schedule 8, paragraph 29(2) and the Deregulation Act 2015 (c. 20), section 50(4) and (5).

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

21 Medi 2018

Richard Morgan
Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

Signed under authority of the Cabinet Secretary for Economy and Transport, one of the Welsh Ministers.

Dated the

21 September 2018

Richard Morgan
Head of Planning, Asset Management and Standards
Welsh Government

YR ATODLEN

DARN O GEFNFFORDD YR A470 YN LLANRWST YM MWRDEISTREF SIROL CONWY

Lled llawn y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn i gyfeiriad y de-ddwyrain o barapet de-ddwyreiniol Pont Fawr wrth ei chyffordd â'r B5106, am bellter o 20 metr.

GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A470 (LLANRWST, CONWY) (GWAHARDD CERBYDAU, BEICWYR A CHERDDWYR DROS DRO) 2018

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn arfaethedig tra bo profion yn cael eu gwneud ar y rhwystr amddiffyn rhag llifogydd ar gefnffordd yr A470 yn Llanrwst, ym Mwrdeistref Sirol Conwy ac oherwydd y tebygolrwydd o berygl i'r cyhoedd os bydd cyfnodau o lifogydd.

Effaith y Gorchymyn fydd gwneud y canlynol dros dro:-

- i) gwahardd pob cerbyd rhag mynd ar y darn o gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn. Nodir y llwybrau eraill yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn;
- ii) gwahardd reidio beiciau pedal ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn. Nodir y llwybrau eraill yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn; a
- iii) gwahardd cerddwyr rhag mynd ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn. Nodir y llwybrau eraill yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn.

SCHEDULE

LENGTH OF THE A470 TRUNK ROAD AT LLANRWST IN THE COUNTY BOROUGH OF CONWY

That full width of the length of the trunk road that extends in a south-easterly direction from the south-eastern parapet of Pont Fawr at its junction with the B5106, for a distance of 20 metres.

THE A470 TRUNK ROAD (LLANRWST, CONWY) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES, CYCLISTS AND PEDESTRIANS) ORDER 2018

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary whilst testing exercises are carried out to the flood defence barrier on the A470 trunk road at Llanrwst, in the County Borough of Conwy and as a contingency because of the likelihood of danger to the public during potential periods of flooding.

The effect of the Order will be to temporarily:-

- i) prohibit all vehicles from proceeding on the length of the trunk road specified in Schedule 1 to this Notice. The alternative routes are at Schedule 2 to this Notice;
- ii) prohibit the riding of pedal cycles on the length of the trunk road specified in Schedule 1 to this Notice. The alternative routes are at Schedule 2 to this Notice; and
- iii) prohibit pedestrians from proceeding on the length of the trunk road specified in Schedule 1 to this Notice. The alternative routes are at Schedule 2 to this Notice.

Bydd y Gorchymyn, a fydd yn weithredol yn ysbeidiol, yn dod i rym ar 1 Hydref 2018. Ni ragwelir y bydd ffyrdd ar gau ar gyfer profion mwy na thair gwaith yn ystod cyfnod o 18 mis, ac fe'u cynhelir rhwng 05:00 a 08:00. Codir arwyddion gwybodaeth tua 10 diwrnod cyn pob prawf.

Disgwylir i'r Gorchymyn arfaethedig fod yn weithredol fel y nodir uchod yn unig. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen cynnal profion pellach neu os bydd tebygolrwydd o lifogydd.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cymru (Detholer: Deddfwriaeth/ Is-ddeddfwriaeth/ Offerynnau Statudol Lleol/ Gorchmynion Traffig Dros Dro/ 2018).

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

M D BURNELL
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

YR ATODLENNI

DARN O GEFNFFORDD YR A470 YN LLANRWST YM MWRDEISTREF SIROL CONWY

ATODLEN 1 (Cau)

Lled llawn y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn i gyfeiriad y de-ddwyrain o barapet de-ddwyreiniol Pont Fawr wrth ei chyffordd â'r B5106, am bellter o 20 metr.

ATODLEN 2 (Y Llwybrau Eraill)

i) Dylai cerbydau, beicwyr a cherddwyr sy'n teithio tua'r de ar yr A470 droi i'r chwith i Heol Dinbych, wedyn i'r dde i Heol Watling i ailymuno â'r A470.

ii) Dylai cerbydau a beicwyr sy'n teithio tua'r gogledd ar yr A470 droi i'r dde i Ffordd Tanyrysgol,

The Order, which will operate intermittently, will come into force on 1 October 2018. No more than 3 testing exercises are anticipated during an 18 month period, and would be undertaken between the hours of 05:00 and 08:00. Advance information signs will be erected approximately 10 days prior to each testing exercise.

Although the proposed Order is only expected to operate as specified above, it will remain valid for a maximum period of 18 months as a contingency should further testing exercises be required or in the case of potential flooding circumstances.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at www.gov.wales (Select: Legislation/ Subordinate Legislation/ Local Statutory Instruments/ Temporary Traffic Orders/ 2018).

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

M D BURNELL
Transport
Welsh Government

SCHEDULES

LENGTH OF THE A470 TRUNK ROAD AT LLANRWST IN THE COUNTY BOROUGH OF CONWY

SCHEDULE 1 (Closure)

That full width of the length of the trunk road that extends in a south-easterly direction from the south-eastern parapet of Pont Fawr, at its junction with the B5106 for a distance of 20 metres.

SCHEDULE 2 (Alternative Routes)

i) Southbound vehicles, cyclists and pedestrians on the A470 should turn left onto Denbigh Street, then right onto Watling Street to re-join the A470.

ii) Northbound vehicles and cyclists on the A470 should turn right onto School Bank Road, proceed

mynd ar Ffordd Talybont, wedyn troi i'r chwith i Ffordd Pari i ailymuno â'r A470.

iii) Dylai cerddwyr sy'n teithio tua'r gogledd droi i'r dde i Heol Watling, ac i'r chwith i Heol Dinbych i ailymuno â'r A470.

onto Talybont Road, then turn left onto Parry Road to re-join the A470.

iii) Northbound pedestrians should turn right onto Watling Street, left onto Denbigh Street to re-join the A470.